## Yr Adran Cymunedau

Cyngor Sir Gâr
Carmarthenshire County Council

# Cerdyn Adnabod Gofalwyr / Cerdyn Argyfwng: Rwy’n Ofalwr

**Taflen Ffeithiau 9** **(Medi 2025)**

---

**Beth yw Cerdyn Adnabod Gofalwyr / Cerdyn Argyfwng: Rwy’n Ofalwr?**

Mae **Cerdyn Adnabod Gofalwyr** / **Cerdyn Argyfwng: Rwy’n Ofalwr** yn gerdyn adnabod maint waled ar gyfer gofalwyr di-dâl.

Mae’r cerdyn yn cyflawni dau bwrpas:

1. **Mynediad at Ostyngiadau:** Gall gofalwyr gael mynediad at ostyngiadau sydd ar gael a byddant yn cael cynnig asesiad gofalwyr – naill ai ar eu pen eu hunain neu ar y cyd gyda’r unigolyn sy’n derbyn gofal. (Gellir dod o hyd i fwy o wybodaeth am asesiad gofalwyr yn Nhaflen Ffeithiau 8)
2. **Ymateb mewn Argyfwng:** Gall gofalwyr gario’r cardiau hyn, ac os ydynt yn cael damwain neu’n methu dychwelyd adref i barhau â’u cyfrifoldebau gofalu, bydd gwasanaethau brys neu eraill yn gallu cysylltu â’r bobl berthnasol i roi gwybod bod rhywun gartref sy’n methu ymdopi heb gymorth. (Mae hyn yn ddewisol)

Mae’r cerdyn yn ddilys am 3 blynedd a gallwch wneud cais eto pan ddaw i ben os ydych yn dal i fod yn ofalwr di-dâl.

**Pa fath o ostyngiadau y gallaf eu cael?**

Mae busnesau lleol yn Sir Gaerfyrddin yn cynnig gostyngiadau i ddeiliaid y cerdyn. Mae’r busnesau sy’n cymryd rhan yn arddangos sticer yn eu safleoedd. Mae rhestr o’r busnesau sy’n cymryd rhan ar gael ar-lein: www.sirgar.llyw.cymru/gwasanaethaur-cyngor/gofal-cymdeithasol-ac-iechyd/cefnogaeth-i-ofalwyr/cerdyn-gofalwyr/




**Sut y bydd yr elfen Cerdyn Argyfwng: Rwy’n Ofalwr yn gweithio?**

Fel gofalwr, mae gennych yr opsiwn i gymryd rhan yn yr elfen Cerdyn Argyfwng: Rwy’n Ofalwr. Mae’r elfen hon yn sicrhau, os bydd argyfwng, y bydd y bobl berthnasol yn cael gwybod er mwyn darparu cymorth i’r person rydych yn gofalu amdano.

Mae gofalwyr yn llenwi ffurflen gofrestru i roi manylion am y person y maent yn gofalu amdano, ac enwau hyd at dri pherson enwebedig a all ymateb mewn argyfwng neu amgylchiadau annisgwyl eraill.

Anfonir y ffurflen wedi’i chwblhau at Llesiant Delta, a fydd wedyn yn cyhoeddi Cerdyn Adnabod Gofalwyr/Cerdyn Argyfwng: Rwy’n Ofalwr gyda rhif unigryw i’r gofalwr.

Os bydd digwyddiad annisgwyl neu argyfwng yn codi, gellir cysylltu â Llesiant Delta, a thrwy ddyfynnu’r rhif cofrestru unigryw, gall staff drefnu cymorth drwy gysylltu â’r person(au) enwebedig. Byddant wedyn yn darparu cymorth dros dro heb dâl er mwyn osgoi perygl o ddirywiad neu argyfwng i’r person bregus gartref.

**Beth os nad oes gen i neb a allai gymryd fy lle dros dro?**

Gallwch gofrestru ar gyfer y cynllun o hyd. Os bydd argyfwng, bydd Llesiant Delta yn cysylltu'n awtomatig â'r gwasanaethau cymdeithasol, a fydd yn ymateb ac, os oes angen, yn gwneud trefniadau amgen.

**Beth mae'r person(au) enwebedig yn gorfod ei wneud?**

Dylai'r person(au) enwebedig adnabod y person rydych yn gofalu amdano a gwybod pa gymorth sydd ei angen. Rydym yn cofnodi eu manylion fel y gellir cysylltu â nhw mewn argyfwng os na allwch ddarparu gofal eich hun. Mae'n well eu bod yn ymwybodol o hyn ac yn cytuno y gellir cysylltu â nhw. Dylent wybod sut i gael mynediad i'ch cartref a beth i'w wneud dan yr amgylchiadau hynny.
Dylai'r person(au) enwebedig hefyd wybod pa feddyg teulu y mae'r person rydych yn gofalu amdano wedi'i gofrestru ag ef, ac unrhyw aelod(au) eraill o'r teulu y dylid cysylltu â nhw os bydd angen.

**Sut y gallaf wneud cais am gerdyn?**

Gallwch wneud cais am **Gerdyn Adnabod Gofalwyr / Cerdyn Argyfwng: Rwy'n Ofalwr** drwy lenwi'r ffurflen gofrestru ar-lein: www.sirgar.llyw.cymru/gwasanaethaur-cyngor/gofal-cymdeithasol-ac-iechyd/cefnogaeth-i-ofalwyr/cerdyn-gofalwyr/ neu drwy lenwi'r ffurflen sydd ar ddiwedd y Daflen Ffeithiau hon a'i dychwelyd i:

**Llesiant Delta, Porth y Dwyrain, Llanelli, Sir Gaerfyrddin, SA15 3YF**

Os oes angen y cerdyn arnoch i gael gostyngiadau yn unig, llenwch **Rhan 1** y ffurflen yn unig.

Os ydych am ymuno â'r cynllun Cerdyn Argyfwng: Rwy'n Ofalwr, llenwch **Rhan 1**, **Rhan 2** a **Rhan 3**.

**Beth os bydd fy amgylchiadau'n newid?**

Cysylltwch â Llesiant Delta drwy ffonio 0300 333 2222 i roi gwybod am unrhyw newidiadau.

**Cymorth i Ofalwyr**

Gellir dod o hyd i fanylion am gymorth pellach i ofalwyr drwy:

**Adferiad – Gwasanaeth Gwybodaeth a Chymorth i Ofalwyr: 📞 0333 1211 332**

**Mae'r ffeithlen hon hefyd ar gael yn Saesneg.**
**Os hoffech chi gael y ffeithlen hon mewn unrhyw fformat arall ffoniwch 01267 228703 neu**
**e-bostiwch: gofalcymdeithasol@sirgar.gov.uk**

## Ffurflen Gofrestru ar gyfer Cerdyn Adnabod Gofalwyr a Cherdyn Argyfwng: Rwy'n Ofalwr

Ticiwch y blwch os hoffech gofrestru ar gyfer cyflwyno gwybodaeth ynghylch Ymateb mewn Argyfwng

**Cofrestru ar gyfer:** Ymateb mewn Argyfwng ☐

Os oes angen y cerdyn arnoch i gael gostyngiadau yn unig, llenwch **Rhan 1** y ffurflen yn unig.
Os ydych yn dewis cofrestru ar gyfer y cynllun Cerdyn Argyfwng: Rwy'n Ofalwr, llenwch **Rhan 1, Rhan 2 a Rhan 3**.

## Rhan 1

| **Manylion y Gofalwr** | | | |
|---|---|---|---|
| Enw: | | Dyddiad geni: | |
| Cyfeiriad: | | | |
| | | Cod post: | |
| **Rhifau ffôn:** | Cartref: | Gwaith: | Rhif Ffôn Symudol: |
| **Manylion y person sy'n derbyn gofal** | | | |
| Enw: | | Dyddiad geni: | |
| Cyfeiriad: | | | |
| | | Côd post: | |
| **Rhifau ffôn:** | Cartref: | Gwaith: | Rhif Ffôn Symudol: |
| Enw a chyfeiriad y Meddyg Teulu: | | | |
| | | | |
| **Beth yw cyflwr y person sy'n derbyn gofal?** Anabledd Dysgu, Awtistiaeth, Dementia, Anabledd Corfforol, ac ati. | | | |
| **Beth yw eu perthynas â chi?** (Gŵr, Gwraig, Mab, Merch, Arall) | | | |

**Dychwelyd i: Llesiant Delta, Porth y Dwyrain, Llanelli, Sir Gaerfyrddin. SA15 3YF**

# Yr Elfen Cerdyn Argyfwng: Rwy'n Ofalwr

Mae'n rhaid ichi sicrhau bod gan y person(au) enwebedig fynediad i'r eiddo ac y byddant yn gwybod beth i'w wneud mewn argyfwng.
Bydd y wybodaeth hon yn cael ei thrin yn gyfrinachol ac ni chaiff ei rhannu heblaw mewn argyfwng neu os oes gennym bryderon am eich lles chi neu les y person sy'n derbyn gofal.

Os **nad oes** gennych berson enwebedig neu os nad yw'r person enwebedig ar gael, bydd staff Llesiant Delta yn cysylltu â'r Gwasanaethau Gofal Cymdeithasol a fydd yn ymateb ac yn sicrhau y gellir gwneud trefniadau amgen ar gyfer y person sy'n derbyn gofal.
Cwblhewch y wybodaeth yn Rhan 3 os gwelwch yn dda.

**Sicrhewch fod pob person enwebedig yn ymwybodol y byddant yn darparu gofal dros dro heb dâl.**

| Rhan 2 - Gwybodaeth am y Person Enwebedig | | |
|---|---|---|
| **Person Enwebedig – Y Cyswllt Cyntaf** | | |
| Enw: | | Dyddiad geni: |
| Cyfeiriad: | | |
| | | Côd post: |
| **Rhifau ffôn:** | Cartref: | Rhif Ffôn Symudol: |
| Perthynas â'r person sy'n derbyn gofal: | | |
| **Person Enwebedig – Yr Ail Gyswllt** | | |
| Enw: | | Dyddiad geni: |
| Cyfeiriad: | | |
| | | Côd post: |
| **Rhifau ffôn:** | Cartref: | Rhif Ffôn Symudol: |
| Perthynas â'r person sy'n derbyn gofal: | | |
| **Person Enwebedig – Y Trydydd Cyswllt** | | |
| Enw: | | Dyddiad geni: |
| Cyfeiriad: | | |
| | | Côd post: |
| **Rhifau ffôn:** | Cartref: | Rhif Ffôn Symudol: |
| Perthynas â'r person sy'n derbyn gofal: | | |

**Dychwelyd i: Llesiant Delta, Porth y Dwyrain, Llanelli, Sir Gaerfyrddin. SA15 3YF**

## Rhan 3
## Gwybodaeth i'w rhannu â'r Gwasanaethau Brys

**Pa bethau y mae angen help ar y person rydych yn gofalu amdano i'w gwneud? (Rhowch gylch o amgylch 'oes' neu 'nac oes' os gwelwch yn dda)**

| | | |
|---|---|---|
| Cymryd tabledi neu feddyginiaethau eraill | **Oes** | **Nac oes** |
| Symudedd – Angen cymorth i gerdded/symud o amgylch/mae'n defnyddio cadair olwyn | **Oes** | **Nac oed** |
| Ymolchi a gwisgo | **Oes** | **Nac oes** |
| Cymorth cyffredinol o ddydd i ddydd (e.e. gall fod yn ddryslyd neu'n tueddu i gynhyrfu) | **Oes** | **Nac oes** |
| Paratoi bwyd a diod (oes unrhyw anghenion dietegol?) | **Oes** | **Nac oes** |

**Rhowch unrhyw fanylion eraill yma os gwelwch yn dda**

**Sut y byddai'r Gwasanaethau Brys yn mynd i mewn?** (Nodwch pwy sydd ag allwedd neu ble mae'r allwedd yn cael ei chadw neu sut y gellir cael gafael arni). Oes unrhyw beryglon wrth fynd i mewn i'r eiddo? Oes unrhyw anifeiliaid anwes?

**Rhowch wybod inni am unrhyw wasanaethau cymorth eraill y mae'r person sy'n cael gofal yn eu derbyn, er enghraifft gofal cartref / gofal dydd:**

| Y Gwasanaeth Sydd Ar Waith | Enw'r Cwmni | Pa Mor Aml |
|---|---|---|
| | | |
| | | |

**Gwybodaeth arall sy'n bwysig**

Rhowch wybod inni am unrhyw beth arall a allai fod yn ddefnyddiol mewn argyfwng, gan gynnwys a oes gennych anifail anwes a beth rydych am inni ei wneud ag ef.

**Rwy'n cytuno drwy hyn y gall y wybodaeth uchod gael ei chadw ar ffeil a'i defnyddio mewn argyfwng ac mae pob enwebai yn ymwybodol y byddant yn darparu gofal dros dro heb dâl mewn argyfwng.**

| | |
|---|---|
| Llofnod y Gofalwr: | Dyddiad: |
| Llofnod y Dibynnydd: | Dyddiad: |

**Dychwelyd i: Llesiant Delta, Porth y Dwyrain, Llanelli, Sir Gaerfyrddin. SA15 3YF**